Astudiaeth achos Ailgylchu yn y Gweithle: cadwraeth a thwristiaeth

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Tŷ Tredegar, Dyffryn

Cefndir

Saif Tŷ Tredegar o fewn 90 erw o erddi a pharcdir ar gyrion Casnewydd yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am y tŷ a'r gerddi sy'n dyddio o ddiwedd yr 17eg ganrif ers 2012.

Mae'r cyfleusterau ar y safle yn cynnwys y plasty a'r gerddi, ystafell de, parcdir (ar agor i'r cyhoedd), toiledau (mewn 3 lleoliad), swyddfeydd staff gyda cheginau a busnesau tenantiaid.

Darlun: Tŷ Tredegar

Rhoi ailgylchu yn y gweithle ar waith

Mae timau rheoli adnoddau a chyfleusterau cynaliadwy'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gweithio'n agos gyda staff y safle i rannu arfer da ac annog rhanddeiliaid mewnol ac allanol i fabwysiadu arferion cynaliadwy.

Mae enghreifftiau'n cynnwys rhannu gwaddodion coffi am ddim yn yr ystafell de (i leihau gwastraff bwyd) a hyrwyddo siop ddi-blastig (Sero Waste), sy'n gweithredu fel tenant masnachol ar y safle.

> Mae'r rheoliadau ailgylchu yn y gweithle wedi ein hannog i ganolbwyntio ar ein harferion ailgylchu ledled Cymru. Rydym yn awyddus i wneud gwelliannau pellach nawr ein bod wedi gweld cymaint o groeso a gafodd hyn gan y cyhoedd a'n staff ein hunain yn ogystal â ffocws ar leihau pob math o wastraff.
>
> Matilda Pears-Cooper, Cynghorydd Cynorthwyol Hinsawdd ac Amgylchedd – Cymru yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Darlun: Tŷ Tredegar a biniau ailgylchu yn y parc

Mae'r ddogfen hon yn eiddo i WRAP ac ni cheir ei hatgynhyrchu na'i hailddefnyddio heb ganiatâd.

Ymateb i’r gyfraith ailgylchu yn y gweithle

Cyn i'r gyfraith ddod i rym, bu timau mewnol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio i asesu gofynion biniau a datblygu arwyddion priodol (gan ddefnyddio safonau WRAP).

I gyd-fynd â chyflwyno biniau newydd, ac ailosod y biniau presennol, rhannwyd cyflwyniad hyfforddi ymhlith staff yr eiddo. Cafodd y newidiadau eu cyfleu hefyd mewn cyfarfodydd gweithredol.

Biniau allanol a labelu

- Archebwyd biniau allanol newydd gan Woodberry, gan sicrhau gwahaniad llawn o ddeunyddiau cyffredin sy'n codi mewn amgylcheddau awyr agored.
- Mae arwyddion ychwanegol sy'n nodi dim gwastraff cŵn wedi'u hychwanegu i osgoi halogiad, gyda nifer o finiau pwrpasol wedi'u darparu i bobl sy’n mynd â chŵn am dro eu defnyddio ar draws y safle.
- Diweddarwyd darluniau labeli biniau i'w gwneud yn fwy addas i'r mathau o wastraff a gynhyrchir ar y safle.
- Mae posteri wedi'u gosod yn y mannau staff ger y biniau i helpu staff gyda'r hyn y gellir ac na ellir ei roi ym mhob bin.

Darlun: Biniau ailgylchu a chadi gwastraff bwyd staff

Darlun: Biniau ailgylchu’r parc gydag arwyddion baw cŵn

Darlun: Posteri staff

Effaith

Cynhyrchu a rheoli gwastraff

- Mae symiau gwastraff ac ailgylchu yn cael eu cofnodi'n fisol, gyda'r lefelau cyffredinol ychydig o dan 3 tunnell y mis ar gyfartaledd.
- Mae'r tabl yn dangos sut mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu dros y cyfnod ers gweithredu'r newid yn y gyfraith.

Cyfnod amser	Cyfradd ailgylchu
Gorffennaf - Awst 2023	28%
Gorffennaf - Awst 2024	43%

Mentrau cyfredol

Mae ystod eang o fentrau yn cael eu datblygu ar draws yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ymgorffori defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau a lleihau gwastraff:

- **Siop Ffeirio Fewnol** – annog staff i gysylltu â safleoedd eraill i weld a allant gyfnewid/benthyg/rhoi yn hytrach na phrynu eitemau newydd
- **Adolygu deunydd pacio cludo** a gofyn i gyflenwyr manwerthu sy'n dosbarthu cynhyrchion ar baledau gymryd y rhain yn ôl (i'w hailddefnyddio)
- **Ymrwymiad i fynd i'r afael â phlastigion untro** a llygredd drwy weithio ar eu hosgoi yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn bosibl, gwneir ymdrech i ddod o hyd i blastigion sy'n cynnwys deunydd eilgylch yn unig ac y gellir ei ailgylchu'n hawdd ar ddiwedd eu hoes

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU

THE BUSINESS OF RECYCLING WALES

WRAP CYMRU

Chwaraewch eich rhan mewn ffordd gylchol o fyw

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar y Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle, anfonwch e-bost atom CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

Y Busnes o Ailgylchu Cymru